# Teils bondio cofalent

## Amcanion dysgu

1 Lluniadu diagramau dot a chroes ar gyfer moleciwlau cofalent syml

2 Adnabod bondiau cofalent sengl, dwbl a thriphlyg

## Cyfarwyddiadau i athrawon

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys dalen o deils bondio cofalent y gellir eu hargraffu a'u torri'n deils unigol i helpu'r dysgwyr wrth gyflwyno bondio cofalent. Mae'r electronau wedi cael eu codio gyda dotiau a chroesau lliw er mwyn helpu'r dysgwyr i adnabod bondiau sengl, dwbl a thriphlyg. Er mwyn osgoi camsyniadau, bydd angen atgoffa'r dysgwyr, er bod symbolau gwahanol yn cael eu defnyddio, eu bod i gyd yn cynrychioli un electron ym mhlisgyn allanol yr atom.

### Tasg 1: Adeiladu bondiau

Yn y dasg hon, bydd y dysgwyr yn ymgyfarwyddo â'r teils yn yr adnodd ac yn ymarfer eu trefnu i wneud moleciwlau cofalent syml. Mae'r dasg hon yn fwriadol benagored ac mae llawer o drefniannau posibl ar gyfer pob un o gamau'r dasg. Bydd y dysgwyr yn dod i arfer â dod o hyd i'r teils cywir i gwblhau pob bond a threfniannau'r teils y bydd angen eu gosod ar ongl weithiau.

### Tasg 2: Moleciwlau cofalent syml

Yn y dasg hon, bydd y dysgwyr yn adeiladu moleciwlau penodol ar sail eu fformiwla gemegol. Yn achos moleciwlau sy'n cynnwys ocsigen, carbon a nitrogen, bydd angen i'r dysgwyr ddewis y deilsen gywir i ddangos bondiau sengl, dwbl neu driphlyg yn ôl yr angen.

### Tasg 3: Hydrocarbonau


Yn y dasg hon, bydd y dysgwyr yn defnyddio'r teils i archwilio patrymau yn y gyfres homologaidd o alcanau ac alcenau. Dylai'r dysgwyr eisoes fod yn gyfarwydd â defnyddio'r adnodd (mae'r gwahanol gamau yn nhasg 1 yn helpu i archwilio hyn) cyn cymhwyso'r teils i gysyniadau cemeg. Gellir defnyddio'r teils i ddangos y fformiwlâu cyffredinol ar gyfer yr alcanau a'r alcenau.

### Tasg 4: Polymeru

Yn y dasg olaf hon, gofynnir i'r dysgwyr greu animeiddiad stop-symudiad neu GIF i ddangos y broses polymeru. Bydd angen iddynt ddefnyddio creadigrwydd a gwybodaeth gadarn am adeiledd a bondio i gynhyrchu eu hanimeiddiad.


© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

## Teils croes bondio cofalent




© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol


## Teils dot bondio cofalent




## Atebion

### Tasg 1: Adeiladu bondiau

1. Efallai y bydd gan y dysgwyr rai neu'r cyfan o'r cyfuniadau canlynol o deils:




2. Efallai y bydd y dysgwyr wedi cydosod rhai neu'r cyfan o'r moleciwlau cofalent syml canlynol:




(a) Beth sy'n wahanol:


- Mae'r moleciwlau hyn i gyd yn fwy
- Dim ond bondiau cofalent sengl maent yn eu cynnwys
- Mae siâp pob un yn wahanol

(b) Mae'r ddwy deilsen ocsigen yno er mwyn gallu trefnu adeileddau a siapiau gwahanol. Mae gan y ddwy deilsen ocsigen 2 fond cofalent sengl ond mewn un mae'r bondiau'n gyfagos ac yn y llall mae'r bondiau gyferbyn â'i gilydd.

(c) $CH_4$, $NH_3$, $H_2O$

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

(d)




**3.**

(a) $O_2$ yw'r moleciwl lleiaf gallwch ei wneud oherwydd ei fod ond yn cynnwys dim ond dau atom.

(b) Mae llawer o gyfuniadau posibl o dair teilsen. Dylai'r holl ddysgwyr allu trefnu 5–8 o foleciwlau gwahanol, bydd llawer yn gallu trefnu 8–10 o foleciwlau a bydd rhai yn trefnu 10–16 o foleciwlau. Dyma rai enghreifftiau: $CO_2$, $SiO_2$, $CS_2$, $SiS_2$, NOH, POH, HNS, HPS, PSCl, PSF, POCl, POF, NOCl, NOF, NSCl a NSF.

(c) Mae modd trefnu llawer iawn o foleciwlau gyda phedair teilsen. Heriwch y dysgwyr i drefnu 10 neu fwy o gyfuniadau o deils.
Dyma rai enghreifftiau: $H_2CO$, $COF_2$, $Cl_2CO$, $CSCl_2$, $CF_2S$, $CH_2S$, $C_2O_2$, $O_2Si_2$, $H_2SiO$, $SiOF_2$, $Cl_2SiO$, $SiSCl_2$, $SiF_2S$ a $SiH_2S$.

## Her

Mae hyn yn benagored a gallech gael unrhyw nifer o gyfuniadau o foleciwlau rhyfedd a rhyfeddol. Gan ddibynnu ar ddiddordeb a gallu eich grŵp, gallech arwain y dysgwyr i adeiladu hydrocarbonau mawr, yn enwedig os ydych chi eisiau iddynt allu enwi eu moleciwl yn rhan (c).







(a) Bydd hyn yn dibynnu ar yr adeiledd maent wedi'i drefnu gyda'u teils.
**Awgrym:** Gofynnwch i'r dysgwyr dynnu ffotograff o'r teils cyn iddynt geisio lluniadu eu diagram dot a chroes. Bydd hyn yn osgoi unrhyw broblemau a allai ddigwydd oherwydd bod y teils yn symud wrth iddynt luniadu a bydd yn rhoi rhywbeth iddynt gymharu ag ef ar ôl rhoi'r teils i gadw.

(b) Y ffordd symlaf o ysgrifennu fformiwla yw cyfrif nifer yr atomau o bob elfen. Er mwyn herio'r disgyblion ymhellach, gofynnwch iddynt sut roeddent wedi penderfynu pa elfen i'w hysgrifennu'n gyntaf.
**Gweithgaredd estyn:** Gallech sôn wrth y dysgwyr am 'system Hill' o drefnu'r elfennau o fewn fformiwlâu cemegol. Er mwyn mynd â hyn ymhellach, gallech gyflwyno fformiwlâu cryno sy'n rhoi hyd yn oed rhagor o wybodaeth am adeiledd y moleciwl.

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

(c) Os bydd y dysgwyr wedi adeiladu moleciwl 'go iawn' dylent allu chwilio ar-lein drwy ddefnyddio'r fformiwla i ganfod os oes ganddo enw cemegol.

## Tasg 2: Moleciwlau cofalent syml


| Enw'r moleciwl | Fformiwla | Lluniadwch y diagram dot a chroes |
|---|---|---|
| Dŵr | $H_2O$ |  |
| Asid hydroclorig | HCl |  |
| Carbon deuocsid | $CO_2$ |  |
| Methan | $CH_4$ |  |
| Nitrogen | $N_2$ |  |
| Amonia | $NH_3$ |  |
| **Gweithgaredd estyn:**<br>**Enw'r moleciwl** | **Fformiwla'r moleciwl** | **Unrhyw gyfansoddyn cofalent syml a wnaed gyda'r teils e.e. $O_2$, $C_2H_4$, NOH ac ati** |

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

## Tasg 3: Hydrocarbonau


### Alcanau

1. amherthnasol
2. Gweler y tabl
3.



### Alcenau

4. Mae cyfres homologaidd alcenau yn cynnwys bond dwbl carbon-carbon. Allwch chi ddim cael bond dwbl carbon-carbon mewn moleciwl sydd â dim ond un atom carbon.
5. Gweler y tabl
6.




| Cyfres alcanau | Fformiwla | Cyfres alcenau | Fformiwla |
|---|---|---|---|
| Methan | $CH_4$ | | |
| **Ethan** | $C_2H_6$ | Ethen | **$C_2H_4$** |
| Propan | **$C_3H_8$** | **Propen** | $C_3H_6$ |
| Bwtan | **$C_4H_{10}$** | **Bwten** | **$C_4H_8$** |
| Pentan | **$C_5H_{12}$** | **Penten** | **$C_5H_{10}$** |
| **Hecsan** | $C_6H_{14}$ | Hecsen | **$C_6H_{12}$** |
| **Heptan** | **$C_7H_{16}$** | Hepten | **$C_7H_{14}$** |
| Octan | **$C_8H_{18}$** | **Octen** | $C_8H_{16}$ |
| Nonan | **$C_9H_{20}$** | **Nonen** | **$C_9H_{18}$** |
| **Decan** | $C_{10}H_{22}$ | Decen | **$C_{10}H_{20}$** |

7. Dylai'r dysgwyr sylwi ar y patrymau sy'n arwain at fformiwla gyffredinol yr alcanau ($C_nH_{2n+2}$) a'r alcenau ($C_nH_{2n}$).


© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

## Tasg 4: Polymeru


1.




2.




3.




4. Mae enghraifft o fideo stop-symudiad gan ddefnyddio'r teils bondio cofalent o'r adnodd hwn ar gael yn rsc.li/3eiWEVv.

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol